# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 18 Gorffennaf 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
2 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Cyfleusterau Llyfrgell

**C7 Jonathan Morgan:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddatblygu cyfleusterau llyfrgell yng Nghymru? (OAQ19089)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Bydd rhwydwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y bobl yn cysylltu pob llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru â'r rhyngrwyd erbyn diwedd 2002, a bydd yn darparu mynediad â chymorth i'r rhyngrwyd ynghyd â gwasanaethau TGCh eraill i'r cyhoedd. Bydd nifer y cyfrifiaduron yn llyfrgelloedd Cymru yn codi o ryw 200 i 2,000. Nid yw'r un awdurdod yng Nghymru yn bwriadu codi ffi am y gwasanaeth.

Yr wyf hefyd wedi cyflwyno safonau i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru i wella ansawdd ein gwasanaethau llyfrgell.

### Buddsoddi mewn Chwaraeon yn y Canolbarth

**C8 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a fuddsoddir mewn chwaraeon yng nghanolbarth Cymru? (OAQ19035)

**Jenny Randerson:** Mae'r Canolbarth yn elwa ar fentrau Cyngor Chwaraeon Cymru yn ogystal â thrwy arian Sportlot, sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal amrywiaeth o brosiectau sy'n ymwneud â chwaraeon. Y llynedd, er enghraifft, cafodd Powys £700,000 o arian Sportlot, sy'n fwy na'r hyn a dderbyniodd ardal unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru.

### Mesur Darlledu Arfaethedig

**C9 Rosemary Butler:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chydweithwyr yn San Steffan ar y Mesur darlledu arfaethedig? (OAQ19034)

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi trafod â Tessa Jowell, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; y Dr Kim Howells, sef y Gweinidog dros Dwristiaeth, Ffilm a Darlledu; a Don Touhig, Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr wyf wedi manteisio ar bob un o'r achlysuron hynny i esbonio a hyrwyddo barn Llywodraeth y Cynulliad a darlledwyr Cymru am y cynigion sydd wedi'u cyflwyno yn y Mesur Cyfathrebu drafft.

### Grantiau'r Loteri Genedlaethol

**C10 Ann Jones:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i fynd i'r afael â'r lefel gymharol isel o geisiadau am grantiau'r Loteri Genedlaethol sy'n dod i law gan rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? (OAQ19046)

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi ymrwymo i ddyrannu arian y loteri yn deg i ardaloedd a grwpiau ledled Cymru. Ym mis Mawrth, cyhoeddais fenter newydd o'r enw cyfran deg, sy'n cael ei chyllido ar y cyd gan y gronfa cyfleoedd newydd a'r gronfa gymunedol. Mae'n cyfeirio arian y loteri at ardaloedd difreintiedig sydd wedi derbyn llai na chyfartaledd y symiau a ddyrannwyd gan y loteri.

### Ffotograffiaeth

**C11 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau i hybu ffotograffiaeth yng Nghymru? (OAQ19028)

**Jenny Randerson:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn noddi Ffotogallery, canolfan ffotograffiaeth genedlaethol Cymru, a rhoddodd £103,000 yn 2002-03. Mae cyngor y celfyddydau yn cynorthwyo chwe oriel ddatblygu arall ar draws Cymru sy'n arddangos gwaith ffotograffyddol.

### Astudiaeth ar Ddarlledu yng Nghymru

**C12 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog bennu amserlen ar gyfer gweithredu'r astudiaeth ar ddarlledu yng Nghymru o dan nawdd Cymru'n Creu? (OAQ19029)

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd â darlledwyr yng Nghymru ac wedi manteisio ar y cyfle i ofyn beth yw eu barn am fy nghynnig. Byddaf yn cyhoeddi union natur, cylch gwaith ac amserlen yr astudiaeth yn yr hydref.

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ19048) yn ôl.*

### Arian Cyhoeddus ar gyfer Dawns yng Nghymru

**C14 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer dawns yng Nghymru? *(*OAQ19107)

**Jenny Randerson:** Yn 2001-02, bu i Gyngor Celfyddydau Cymru ddarparu bron i £800,000 o refeniw i gwmnïau cynhyrchu, sefydliadau dawns cymunedol a chyrff ymbarél strategol. Hefyd, rhoddwyd £166,000 o arian y loteri tuag at ddawns yng Nghymru. Mae'n debyg y caiff bron i £1 filiwn o refeniw ei wario eleni.

### Arian ar gyfer Gwella Caeau Chwarae

**C15 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian sydd ar gael i dimau yng nghynghrair Cymru wella eu caeau chwarae? (OAQ19098)

**Jenny Randerson:** Caf ar ddeall bod Undeb Cymdeithasau Pêl-Droed Ewrop yn gallu helpu cymdeithasau pêl-droed cenedlaethol i fodloni'r meini prawf newydd i drwyddedu clybiau drwy ddarparu benthyciadau di-log hyd at £1 filiwn. Yn ôl yr undeb, mae'r meini prawf yn hyblyg ac yn cynnwys datblygu ieuenctid ymhlith eu blaenoriaethau, yn ogystal â seilwaith a gwella'r weinyddiaeth.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru
## a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

## Cronfeydd wedi'u Modiwleiddio

**Q8 Phil Williams;** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cronfeydd wedi'u modiwleiddio a gasglwyd o daliadau cynwyddau cynhyrchwyr yn 2001? (OAQ19073)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Cyfanswm y cronfeydd wedi'u modiwleiddio o gymorthdaliadau uniongyrchol i Gymru yn 2001-02 yw £2.87 miliwn.

## Antur Cig Cymru

**Q9 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth sefydlu Antur Cig Cymru? (OAQ19080)

**Michael German:** Mae sawl cyfarfod wedi'i gynnal â'r carfanau dan sylw, a chadeiriais y cyfarfod diweddaraf ddydd Gwener 12 Gorffennaf. Er bod cynnydd da wedi'i wneud, mae angen ymdrin â rhai materion sy'n ymwneud ag aelodaeth a'r strwythur cyfreithiol o hyd. Mae'r trafodaethau hyn yn amodol ar gyfrinachedd ymysg y carfanau dan sylw.

## Awdurdod Datblygu Cymru

**Q10 Jonathan Morgan:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynrychiolwyr Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch marchnata cynnyrch Cymreig dramor? (OAQ19057)

**Michael German:** Cyfarfûm â swyddogion cyfarwyddiaeth fwyd Awdurdod Datblygu Cymru ar 5 Gorffennaf i drafod marchnata cynnyrch Cymreig dramor. Hefyd yr wyf newydd ddychwelyd o ymweliad llwyddiannus iawn â gŵyl *Fancy Food* yn Efrog Newydd, a oedd yn cynnwys cyfarwyddiaeth fwyd y WDA a Food from Britain.

## Gwaharddiad Symud 20-diwrnod

**Q11 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaharddiad symud 20-diwrnod? (OAQ19058)

**Michael German:** Mae trafodaethau am y gwaharddiad symud 20-niwrnod yn parhau. Ni wneir penderfyniadau tan ar ôl i adroddiadau'r ymchwiliadau i glwy'r traed a'r genau ddod i law yn ddiweddarach y mis hwn.

## Cyngor Amaethyddol Diweddar

**Q12 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y cyngor amaethyddol diweddar? (OAQ19119)

**Michael German:** Euthum i gyfarfod Cyngor y Gweinidogion Amaethyddiaeth ym Mrwsel ar 15 Gorffennaf. Hwn oedd y cyfle cyntaf i'r cyngor drafod y cynigion y Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd ar 10 Gorffennaf, yn sgîl yr adolygiad canol tymor o'r polisi amaethyddol cyffredin.

Yr egwyddorion bras sy'n sail i ddull gweithio y comisiwn yw bod y polisi amaethyddol cyffredin yn dod yn fwy perthnasol i anghenion y gymuned ffermio a buddiannau defnyddwyr, tra bo'r gwaith o gynnal yr amgylchedd a hyrwyddo cefnogaeth i ddatblygiad gwledig yn datblygu. Mae hyn oll yn gyson â nod hirdymor Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, fel a bwysleisiwyd yn 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol'.

Cyn cyfarfod y cyngor, rhoddais ar ddeall i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei bod yn bwysig na fydd cynhyrchwyr Cymru dan anfantais o ganlyniad i'r trafodaethau arfaethedig ar becyn

cyffredinol y comisiwn. Yn benodol, pwysleisiais y blaenoriaethu sydd ei angen er mwyn i'r DU sicrhau cyfran fwy o adnoddau yr UE ar gyfer datblygu gwledig.

Mae'r broses o negodi ar gynigion y comisiwn newydd ddechrau. Mae llawer o fanylion i'w trafod a'u hystyried yn y misoedd nesaf cyn dod i gytundeb terfynol. Byddaf yn mynychu cyfarfodydd y cyngor yn y dyfodol, a chaiff Llywodraeth y Cynulliad ei chynrychioli ym mhob cam allweddol o'r negodiadau yn Llundain a Brwsel er mwyn diogelu buddiannau cymuned ffermio Cymru.

**Cynllun Mynediad i Ffermwyr Ifanc**

**Q13 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd o ran datblygu cynllun mynediad i ffermwyr ifanc? (OAQ19069) [W]

**Michael German:** Gofynnodd fy rhagflaenydd i swyddogion ystyried pa mor ymarferol yr oedd cynllun lle y gallai ffermwr sy'n ymddeol ddefnyddio fferm i gychwyn blwydd-dâl i dalu am bensiwn, gan roi cyfle i berson ifanc brynu'r fferm dros gyfnod o amser y cytunir arno. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Er hynny, bydd yn rhaid ystyried unrhyw gynigion yng ngoleuni'r galw am adnoddau o rannau eraill y gyllideb amaethyddiaeth a datblygu gwledig.

**Hela â Chŵn**

**Q14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt yr ymgynghoriad ar hela â chŵn? (OAQ19117)

**Michael German:** Mater i Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yw hwn.

**Gwaharddiad Symud 20-diwrnod (DEFRA)**

**Q15 Cynog Dafis:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu gwneud i DEFRA ynglŷn â'r gwaharddiad symud 20-diwrnod? (OAQ19064) [W]

**Michael German:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau rhyngadrannol parhaus ar symud da byw.